Plaid Cymru
The Party of Wales

Darlith i ddathlu 75 mlwyddiant Plaid Cymru – The Party of Wales

Traddodwyd ar Awst 9 yn Eisteddfod Genedlaethol Llanelli, 2000 gan Dr John Davies

℗ John Davies

Pris: £2.50

Plaid Cymru
The Party of Wales

Tri-chwarter canrif o hanes Plaid Cymru

Saith deg a phump o flynyddoedd a chwe niwrnod yn ôl i heddiw, ar ddydd Mercher Eisteddfod Genedlaethol 1925, daeth chwech o ddynion ynghyd yng Ngwesty'r Maesgwyn yng nghanol tref Pwllheli. Amcan y cyfarfod oedd sefydlu Plaid Genedlaethol i Gymru drwy uno dau fudiad a oedd eisoes mewn bodolaeth: sef Byddin Ymreolwyr Cymru, creadigaeth Huw Robert Jones o Ebenezer, neu Ddeiniolen, a'r Mudiad Cymreig, sef grŵp o bobl a gyfarfyddai yng nghartref Gruffydd John Williams ym Mhenarth. Yr oedd anian y naill grwp yn bur wahanol i'r llall, a gellir honni eu bod yn cynrychioli dwy haen a fyddai'n bresennol yn y Blaid Genedlaethol hyd y dwthwn hwn. Gwreiddiwyd Byddin Ymreolwyr Cymru yn mro chwarelu Arfon; at ei gilydd, roedd ei haelodaeth yn hanni o'r dosbarth gweithiol ac yn dod o'r un cefndir a'r rheini a oedd, ar y pryd, yn adeiladu'r Blaid Lafur yng Ngwynedd. Pobl academig oedd aelodau'r Mudiad Cymreig a doedd dim un ohonynt yn byw yn y fro lle'i fagwyd. O'r chwech, yr oedd tri yn frodorion o Sir Gaernarfon, un yr un o siroedd Dinbych a Cheredigion ac un – Saunders Lewis – wedi'i eni yn Lloegr, er iddo ystyried mai yn Sir Fôn yr oedd ei wreiddiau. Doedd dim un ohonynt â gwreiddiau ym maes glo'r de – ystyriaeth arwyddocaol, efallai, wrth olrhain hanes cynnar y blaid newydd. I'r graddau yr oedd ynddi hi, o'r cychwyn, elfen Lafurol, o'r gogledd y deilliai hwnnw, nid o'r de.

Ar yr olwg gyntaf, gellir hawlio mai'r hyn a ddigwyddodd ym Mhwllheli oedd bod Byddin Ymreolwyr Cymru wedi llyncu'r Mudiad Cymreig. Hyd yn oed cyn y cyfarfod, yr oedd y Fyddin wedi mabwysiadu'r teitl Plaid Genedlaethol Cymru a'i swyddogion hi – ei llywydd, Lewis Valentine, ei hysgrifennydd, Huw Robert Jones a'i thrysorydd, Moses Gruffydd – a gadarnhawyd fel swyddogion y blaid newydd. Ond, fel y dengys Hywel Davies yn ei astudiaeth ardderchog o hanes cynnar y Blaid Genedlaethol, fel arall yr oedd hi mewn gwirionedd, gan i Saunders Lewis – y ffigwr amlycaf yn y Mudiad Cymreig – fynnu bod y blaid newydd yn mabwysiadu egwyddorion sylfaenol ei fudiad. O'r rheini, y pwysicaf oedd lle cwbl ganolog i'r iaith Gymraeg, torri cysylltiad â phob plaid arall a chael dim i'w wneud a'r senedd yn Llundain. Yr oedd yr egwyddorion hyn yn brawf o awydd Saunders Lewis i greu math gwbl newydd o genedlaetholdeb gwleidyddol yng Nghymru. Ers cyfnod Cymru Fydd, bu llawer o sôn am yr angen am blaid genedlaethol Gymreig, ond yr hyn a olygid gan amlaf oedd cryfhau gallu'r aelodau Cymreig yn San Steffan i gydweithio'n effeithiol. Ymhlyg yn nadleuon Saunders Lewis oedd condemniad

o'r cenedlaetholdeb Cymreig a fodolai eisoes, cenedlaetholdeb a nodweddid gan gynadleddau cydbleidiol, obsesiwn gyda San Steffan a pharodrwydd i dderbyn safle israddol yr iaith Gymraeg.

Y genhedlaeth ifainc a gynrychiolid y Mhwllheli. Heblaw am Fred Jones, a oedd yn wyth a deugain oed, yr oedd y gweddill rhwng saith ar hugain a deuddeg ar hugain oed. Yr oeddynt wedi dod ynghyd oherwydd eu cred bod eu diwylliant cenedlaethol o dan fygythiad a bod y gymuned genedlaethol yn gwegian oherwydd diffyg sefydliadau gwleidyddol. Yn ystod y degawd blaenorol, yr oedd nifer o genhedloedd bychain canol a dwyrain Ewrop wedi ennill cydnabyddiaeth ryngwladol a cheid yng Nghymru edmygedd o'r hyn a gyflawnid gan bobloedd fel y Tsieciaid a'r Estoniaid. A'r Cymry wedi cyfrannu'n helaeth mewn gwaed i'r fuddugoliaeth a ganiataodd y gydnabyddiaeth honno, a'r Cymro, Lloyd George, wedi llywyddu dros ail-lunio ffiniau gwladwriaethau Ewrop, profiad chwerw oedd sylweddoli bod y Cymry fel cenedl wedi elwa dim ar y broses. Hyd yn oed mwy allweddol oedd y datblygiadau yn Iwerddon. Yr oedd y gagendor rhwng aberth arwrol y Gwyddyl a llwfrdra'r Cymry yn fater o gywilydd i rai o'r cynfilwyr Cymreig a deimlai eu bod wedi ymladd o blaid rhyddid pob cenedl heblaw eu cenedl hwy eu hunain.

O bleidiau'r dauddegau a geisiai ddenu pleidleisiau'r Cymry, ystyrid y Ceidwadwyr fel plaid gwbl Unionistaidd a Seisnigedig. Yr oedd y Blaid Ryddfrydol, prif gyfrwng ymgyrchoedd Cymreig ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg, bellach yn pledio cenedlgarwch amleiriog di-gynnwys. Yn y dauddegau, cilio a wnaeth cefnogaeth y Rhyddfrydwyr i ymreolaeth i Gymru, yn enwedig wrthynt sylweddoli na fyddai gan senedd Gymreig, pe sefydlid un, fwyafrif Rhyddfrydol. Ofnent beth alwent yn 'Folseficiaid y De' a theimlent mai trwy'r drefn unedig Brydeinig y gwarchodid eu buddiannau. Ddechrau'r dauddegau, yr oedd elfennau o fewn i'r Blaid Lafur yn fwy brwd, ffaith a barodd i ymreolwyr fel E.T.John a Beriah Gwynfe Evans ymaelodi â hi. Eto i gyd, yr oedd y blaid honno yn amharod i roi gwedd genedlaethol i'w threfniadaeth yng Nghymru ac yn gynyddol barod i gredu bod swcro'r ymdeimlad Cymreig yn debyg o wanhau undod y dosbarth gweithiol Prydeinig. I aml i Lafurwr, rhywbeth a oedd wedi goroesi o'r hen radicaliaeth oedd cenedlaetholdeb Cymreig – rhywbeth i'w ddefnyddio er mwyn denu'r Cymry i'r Blaid Lafur, yna ei roi heibio. Ymhellach, yn sgil sefydlu'r Wladwriaeth Rydd yn Iwerddon, peidiodd San Steffan â bod yn fan lle cai hawliau cenedl Geltaidd sylw cyson, ac felly gwywodd y gobaith yr enillai Cymru

ymreolaeth wrth gynffon Iwerddon. Yn 1919, sefydlodd y Senedd gynhadledd i ystyried datganoli; cyhoeddodd adroddiadau diddorol, ond ni ddaeth dim ohonynt. Ys dywed cadeirydd y gynhadledd: 'Our discussions were academic rather than practical, for the driving force of necessity was absent'. Creu'r 'driving force of necessity' oedd prif amcan Huw Robert Jones, gwir sylfaenydd y Blaid Genedlaethol, gŵr a oedd wedi'i fesmereiddio gan frwydr y Gwyddyl.

Eto i gyd, aeth chwe mlynedd heibio cyn i'r blaid newydd ddiffinio ei nod cyfansoddiadol. Nid gweithred gan gynhadledd a gynrychiolai aelodaeth y blaid oedd y diffinio hwnnw. Bu'r blaid mewn bodolaeth am wyth mlynedd cyn y rhoddwyd i'r aelodau gyfle i drafod a phleidleisio ar ei pholisiau, a bu'n rhaid aros tan 1938 cyn y cafwyd trafodaethau a phleidleisio ystyrlon. O ganlyniad, bron hyd at yr Ail Ryfel Byd, yr oedd polisïau'r blaid yn gyfrifoldeb aelodau'r pwyllgor gwaith, y rheini, at ei gilydd, â pharchedig ofn o Saunders Lewis, a olynodd Lewis Valentine fel llywydd yn 1926. Gan hynny, ar wahan i'r elfen bwysig a gynrychiolid gan syniadau D. J. Davies, Gilwern, creadigaeth Saunders Lewis oedd y Blaid Genedlaethol gynnar.

Ef, yn anad neb, a sicrhaodd ym mis Chwefror 1931 fod y blaid yn mabwysiadu'r polisi o statws dominiwn – hynny yw, fe ddylai Cymru gael yr un statws ag a fwynheid gan wledydd megis Seland Newydd a Chanada. Mae'n amlwg oddi wrth ohebiaeth Saunders Lewis nad oedd yn credu fod statws dominiwn yn gyfystyr ag annibyniaeth. Yn wir, yn ei araith enwog i Ysgol Haf y Blaid Genedlaethol yn 1926 taflodd ddirmyg ar y syniad o annibyniaeth, gan ddadlau ei fod yn gysyniad anfoesol a gwrth-Gristnogol. Eto i gyd, ychydig fisoedd ar ôl i'r blaid fabwysiadu'r polisi o statws dominiwn, cadarnhaodd San Steffan Statud Westminster, statud a ddatganodd nad oedd gan y senedd Brydeinig sofraniaeth dros y dominiynau, ac mai'r hyn a oedd yn uno'r Gymanwlad oedd, nid grym Prydain, ond yn hytrach cyd-deyrngarwch i'r Goron. Dichon felly, pe buasai Cymru yn ddominiwn, y byddai sofraniaeth yn eiddo i'w senedd a'i Llywodraethwr Cyffredinol, ac annibyniaeth fyddai ystyr hynny. Ar y pryd, fodd bynnag, ni ddilynwyd y mater i'r pen; yn wir, cafwyd hyd heddiw amharodrwydd i fynd i fanylder ynglyn â'r pwnc.

Yn ei ymosodiad ar annibyniaeth yn 1926, dadleuodd Saunders Lewis mai angen y Cymry oedd y mesur hynny o ryddid a fyddai'n caniatáu iddynt amddiffyn gwarediddiad yn eu rhan hwy o'r byd. Credai mai pwrpas gwleidydda oedd amddiffyn gwareiddiad. Mynegodd ei hun yn groyw ar y mater yn y *Western Mail*

yn 1965 – a chyfieithaf: 'Yr hyn sy'n bygwth dynolryw yw bod difrawder yn dinistrio gwarediddiad. Felly mai gan brofiad penodol Gymreig y ganrif hon – yr argyfwng y crewyd y Blaid Genedlaethol fel ymateb iddo ac er mwyn ei rwystro – arwyddocad gyfanfydol. Mae rhaid i waredddiad fod yn rhywbeth mwy na haniaith. Rhaid bod ganddo drigfan leol ac enw. Yma, ei enw yw Cymru,' Credai fod y Gymraeg yn ganolog i wareiddiad yng Nghymru a'i brif amcan wrth ymwneud â gwleidyddiaeth oedd ceisio sicrhau llewyrch yr iaith. Ond a'r Gymraeg yn iaith leiafrifol yng Nghymru, o'r braidd y gellid ddisgwyl y byddai mwyafrif pleidleiswyr y wlad yn cefnogi plaid a ystyriai mai buddiannau'r iaith oedd ei phrif gonsyrn. Felly, o'r dechrau bron, cododd tensiwn rhwng amcanion diwylliannol ac amcanion cyfansoddiadol y Blaid Genedlaethol. Doedd dim amheuaeth ynglŷn â blaenoriaethau Saunders Lewis. Ysgrifennodd yn 1923: 'Pe bai modd sicrhau dyfodol y Gymraeg heb unrhyw newid radical yn y berthynas rhwng Lloegr a Chymru, fe fyddwn i fy hun yn gwbl fodlon ar hynny.' Mynegodd y pwynt yn fwy cwta yn ei ddarlith radio yn 1962: 'Mae'r iaith yn bwysicach na hunanlywodraeth'.

Wrth geisio amddiffyn gwareiddiad yng Nghymru, yr angen pennaf, yn ôl Saunders Lewis, oedd newid agwedd y Cymry atynt hwy eu hunain. 'Tynnu oddi wrth Gymry eu hofn, tynnu oddi wrthynt eu taeogrwydd ysbryd, tynnu oddi ar ein gwlad ni farc a gwarth ei choncwest – dyna nod a pholisi'r Blaid Genedlaethol'. Er mwyn meithrin hunanhyder newydd yn ei gydwladwyr, credai fod angen i'r Cymry amgyffred eu hunain fel aelodau o un o sylfaen genhedloedd gwareiddiad Ewrop – syniad ecsotig i lawer ohonynt gan eu bod wedi'u trwytho yn y gred fod cyd-destun eu genedligrwydd yn hanfodol Brydeinig ac imperialaidd. Glynodd wrth y weledigaeth hon drwy gydol ei fywyd, fel y dengys ei sylwadau ar y refferendwm ar y Farchnad Gyffredin yn 1976, a dichon mai mater o falchder iddo fyddai'r ffaith mai amcan Plaid Cymru erbyn hyn yw ymreolaeth oddi mewn i'r Undeb Ewropeaidd.

Ar y dechrau, nid oedd gan y Blaid Genedlaethol bolisi cymdeithasol ac economaidd penodol iddi hi ei hun, ond buan y daeth Saunders Lewis i'r casgliad, fel y datganodd yn 1930, mai 'peth tymor byr yw Plaid Genedlaethol sy'n amddifad o genadwri o werth parhaol'. Aeth ati i lunio cenadwri iddi, gan ei fod, ys dywed yn 1930, am osgoi sefyllfa 'lle roedd aelodau'r blaid yn genedlaetholwyr ar bynciau yn ymwneud â Chymru ond yn Llafurwyr Seisnig neu yn Ryddfrydwyr Seisnig ar bob pwnc arall'. Roedd yn casáu sosialaeth fel trefn a roddai ormod o rym i'r wladwriaeth, ond roedd hyd yn oed yn fwy llawdrwm ar gyfalafiaeth. 'Mae

cyfalafiaeth ac imperialaeth', dadleuodd yn 1931, 'yn briodferch a phriodfab, a'u plant yw newyn a marwolaeth a dinistr y bobl.' Yr oedd cyfalafiaeth wedi esgor ar ffatriaeth, gan beri i genedlaethau cyfan o bobl gael eu codi i wasanaethu peiriannau. Wrth ymosod ar beth yr ydym nawr yn ei alw yn *globalization*, fe fedrai swnio'n debyg i rai o sosialwyr mwyaf penboeth ein cyfnod ni; fodd bynnag, o'r hyn a ystyrir fel yr asgell dde mewn gwleidyddiaeth y tynnodd y rhan fwyaf o'r syniadau a roes fod i'r athroniaeth y rhoddodd iddo'r teitl perchentyaeth. Ei ysbrydoliaeth oedd y drefn gymdeithasol a fodolai yng Nghymru yng nghanrifoedd olaf yr Oesoedd Canol, pan fodolai lu o fan dirfeddianwyr a oedd yn frwd i roi nawdd i feirdd Canrif Fawr llenyddiaeth Gymraeg. Ag yntau wedi'i dderbyn yn aelod o'r Eglwys Gatholig yn 1934, yr oedd hefyd yn drwm o dan ddylanwad cylchlythyrau'r pabau, cylchlythyrau a geisiai lwybr canol rhwng sosialaeth a chyfalafiaeth. Hanfod perchentyaeth oedd 'gwasgar eiddo ymhlith lliaws aelodau'r genedl'; y di-eiddo, credai Saunders Lewis, oedd y perygl mwyaf i wareiddiad, gan eu bod yn ysglyfaeth i rymoedd amherthnasol cyfalafiaeth ddi-reol a gwladwriaeth or-awdurdodol. Dyma syniadau a oedd wrth fodd mân gyfalafwyr y dde a cheir ynddynt gnewyllyn y syniad o'r *property owning democracy* a ddatgenir weithiau gan y Blaid Geidwadol; yn wir, haerodd Saunders Lewis mai Ceidwadwr fyddai, pe buasai'n Sais. Felly, yn y tridegau, pan roedd y farn gyhoeddus yng Nghymru yn symud fwyfwy i'r chwith, yr oedd y Blaid Genedlaethol yn symud fwyfwy i'r dde. A diddorol yw cofnodi bod y broses wedi'i hailadrodd yn union fel arall ddechrau'r wythdegau: pan roedd y farn gyhoeddus yng Nghymru yn symud fwyfwy i'r dde, yr oedd Plaid Cymru yn symud fwyfwy i'r chwith. Erbyn hyn, mai modd synhwyro bod syniadaeth Plaid Cymru yn symud llaw yn llaw gyda'r farn gyhoeddus yng Nghymru – yr allwedd, efallai, i'w llwyddiannau diweddar.

Wrth olrhain hanes y Blaid Genedlaethol yn ystod ei degawd cyntaf, rhaid cofio mai plaid fechan iawn ydoedd. Roedd ei hincwm yn llai na mil o bunnau'r flwyddyn a'i gweithwyr cyson ond yn ychydig ugeiniau. Cyhoeddai fisolyn Cymraeg, ac, o 1932, fisolyn Saesneg; cynhaliai ysgol haf flynyddol, ond, er gwaethaf gwaith egniol J. E. Jones, yr ysgrifennydd cyffredinol o 1930 ymlaen, bychan iawn oedd ei dylanwad. Ni fedrodd godi ond un ymgeisydd yn etholiad cyffredinol 1929, dau yn 1931 ac un yn 1935, ac nid oedd ganddi'r adnoddau i ymladd hyd yn oed un o'r deuddeg isetholiad a gynhaliwyd yng Nghymru rhwng 1925 a 1939. Yn wir, yn ystod ei deng mlynedd cyntaf, o'r braidd fod trwch poblogaeth Cymru yn gwybod unrhyw beth amdani. Eto i gyd, credai ei haelodau

fod sefydlu'r blaid yn orchest ynddi'i hun.; dim ond wrth fodoli, yr oedd hi'n ddatganiad o wahanolrwydd Cymru.

Newidiodd y sefyllfa yn 1936 gyda llosgi'r ysgol fomio ym Mhenyberth. Ar ryw olwg, protest gwneud oedd honno, cynnyrch awydd Saunders Lewis i gyflawni rhywbeth dramatig i dynnu sylw at ei blaid ac i ddangos bod ysbryd herfeiddiol yng Nghymru ym mlwyddyn pedwar can mlwyddiant y Ddeddf 'Uno'. I lawer o Cymry, y cyhoeddusrwydd a ddaeth yn sgil y llosgi oedd y tro cyntaf iddynt glywed am y Blaid Genedlaethol, ac, yn naturiol ddigon, daethant i'r casglaid mai yn 1936 y sefydlwyd hi ac mai tor-cyfraith oedd hanfod ei strategaeth. Ar y llaw arall, i selogion y blaid, yr oedd profiad y llys yng Nghaernarfon a'r cyfarfod croeso yn y pafiliwn yno yn weddfreiddiol. Ys dywed Cassie Davies: 'Profais fath o ail-enedigaeth. Daeth angerdd llywodraethol i'm mywyd na fedrais ddianc rhagddo'. Enillodd y blaid nifer o aelodau newydd, pobl ifainc o'r gogledd yn arbennig, a llawer ohonynt â thueddiadau sosialaidd. Yr oeddynt yn amharod i dderbyn trefn ganoledig y blaid ac yn anhapus gyda safbwynt gwrth-sosialaidd Saunders Lewis. Mynnwyd trafod y mater yng nghynhadledd 1938, a bu'n rhaid i Saunders Lewis dderbyn fod perchentyaeth ddim yn un o bolisiau craidd y Blaid Genedlaethol. Bu'r ymryson yn ddiflastod mawr iddo a chredodd bod cyfle hanesyddol wedi'i golli. 'Y siom fwyaf y cefais i erioed', ysgrifennodd wythnos ar ôl y gynhadledd, 'oedd bod rhai canghennau wedi gwastraffu eu hamser ar ddadleuon economaidd yn hytrach na medi cynhaeaf yr ysgol fomio.' Flwyddyn yn ddiweddarach ymddiswyddodd o'r llywyddiaeth.

Yr oedd eraill yn credu bod cyfle hanesyddol gwahanol wedi'i golli, sef y cyfle i uno'r gwlatgar a'r blaengar yng Nghymru, a bod y golled i'w phriodoli i wrth-sosialaeth Saunders Lewis. Ys dywed y cylchgrawn *The Welsh Review*, yn 1940: 'For all his sincerity and singleness of purpose, his personality forbids that he should ever be a leader of the people. The personal tragedy of the man is that while earnestly desiring to unite Welshmen, he succeeds only in exacerbating and sundering them . . . He has become the single greatest obstacle to his party's chance of becoming a party of the Welsh people.' Eto i gyd, gweithred afreal braidd yw ceisio dadlau mai cynnwys ac arddull gwleidyddiaeth Saunders Lewis oedd wrth wraidd anallu'r Blaid Genedlaethol i ennill cefnogaeth dorfol. Fel y nododd R. T. Jenkins wrth olrhain cyfraniad Howell Harris i'r Diwygiad Methodistaidd: 'A wnaeth ef fwy o ddrwg nag o les i Fethodistiaeth Cymru? Cwestiwn academaidd, i raddau mawr – oblegid y mae cwestiwn arall i'w ateb yn gyntaf – a fuasai

Methodistiaeth o gwbl yng Nghymru hebddo?'

Fis ar ôl ymddiswyddiad Saunders Lewis, dechreuodd yr Ail Ryfel Byd. Etholwyd J. E. Daniel yn llywydd, ac fe'i olynwyd gan Abi Williams, y llywydd o 1943 hyd nes i Gwynfor Evans ymgymryd â'r swydd yn 1945. Er gwaethaf ei ymddiswyddiad, Saunders Lewis oedd y prif ddylanwad ar bolisi'r Blaid Genedlaethol drwy gydol y rhyfel. Ei ddylanwad ef oedd wrth wraidd penderfyniad y blaid i gyhoeddi fod gan Gymru, fel yr oedd gan eraill o genhedloedd bychain Ewrop, yr hawl i fod yn niwtral yn y rhyfel. Y bwriad oedd gosod i fyny teyrngarwch newydd yn lle'r teyrngarwch i'r wladwriaeth Brydeinig, a gobeithid y byddai nifer o Gymry ifainc yn gwrthod ar dir cenedlaethol dderbyn eu conscriptio. Dim ond rhyw ugain o Gymry a ddatganodd mai eu cenedligrwydd Cymreig oedd unig sail eu gwrthwynebiad, ond, er cyn lleied oeddynt, ystyriai Saunders Lewis bod eu safiad yn hynod o arwyddocaol. Profai, meddai, 'bod cymhathiad Cymru gan Loegr yn cael ei wrthsefyll, hyd yn oed o dan y wasgfa enbytaf . . . Yr unig brawf bod y genedl Gymreig yn bodoli yw bod rhywrai yn gweithredu fel petai hi yn bodoli.' Yn 1943 safodd Saunders Lewis fel ymgeisydd yn isetholiad sedd seneddol Prifysgol Cymru gan beri braw i aelodau'r sefydliad Cymreig. Dewiswyd W. J. Gruffydd, yr amlycaf o'r academyddion Cymraeg eu hiaith a chyn is-lywydd y Blaid Genedlaethol, fel yr ymgeisydd Rhyddfrydol ac ef a enillodd, er i Saunders Lewis dderbyn bron i gwarter y bleidlais. Yr oedd y panic a deimlai aelodau'r sefydliad yn 1943 yn brawf o amgyffrediad bod apêl y Blaid Genedlaethol ar gynnydd, a hynny er gwaetha'r ffaith fod y polisi o niwtraliaeth wedi ennyn atgasedd helaeth. Yn 1939, credwyd yn eang y byddai profiad o ryfel cyflawn nid yn unig yn dinistrio'r Blaid Genedlaethol, ond hefyd yn dinistrio pob gobaith am barhad y Cymry fel cenedl. Nid felly y bu, gan, ys dywed J. E. Jones, yr oedd y blaid yn gryfach yn 1945 nag yr oedd hi yn 1939.

Dechreuodd pennod newydd yn hanes Plaid Genedlaethol Cymru yn 1945. Mabwysiadwyd teitl newydd, sef Plaid Cymru, ac etholwyd Gwynfor Evans yn llywydd. Fe fyddai yn y swydd hyd 1981, un ar bymtheg ar hugain o flynyddoedd o ymroddiad diflino heb gymar iddo yn ein hanes fel cenedl. Y mae nifer o haneswyr wedi amgrymu bod ethol Gwynfor Evans wedi golygu bod y blaid wedi llwyr gefnu ar y tradoddiad a etifeddwyd oddi wrth Saunders Lewis. Hybwyd y gred gan y gwrthgyferbyniad rhwng y naill gymeriad a'r llall – Saunders Lewis yn Gatholic, yn ddogmatig, yn parchu swyddogion milwrol, yn wingar ac yn draddodiadgar, a Gwynfor Evans yn Anghydffurfiwr, yn bragmatig, yn heddwchwr, yn ddirwestwr ac

yn flaengar. Eto i gyd, dichon y gellir gorliwio'r gwrthgyferbyniad. Ar nifer o bynciau canolog, does fawr o wahaniaeth rhwng syniadau'r naill a'r llall. Mae Gwynfor Evans yn cyfranogi o ofn Saunders Lewis o broleteriat di-wreiddiau a di-ddiwylliant ac o'i elyniaeth tuag at wladwriaeth or-ganoledig, a bu'n gyson yn canmol syniadau Edmund Burke ynglŷn â throsglwyddo gwerthoedd o genhedlaeth i genhedlaeth. Ys dywed Bobi Jones yn Ysbryd y Cwmwl: 'Tybiaf . . . y bydd y dyfodol yn ystyried [Gwynfor Evans] yn debycach i [Saunders Lewis] nag a wnawn ni, a hyd yn oed yn ddisgybl iddo ar lawer cyfrif.' Serch hynny, fel y dadleua Richard Wynn Jones mewn ysgrif dreiddgar sydd ddim eto wedi'i chyhoeddi, 'braidd yn grintachlyd [y mae Gwynfor Evans yn ei hunangofiant] i gydnabod ei ddyled syniadaethol i Saunders Lewis . . . Y mae'n rhaid] crybino trwy 344 o dudalennau er mwyn canfod dwy hanner brawddeg'.

Deillia oerni annodweddiadol Gwynfor Evans tuag at Saunders Lewis o'r ymwneud a fu rhwng y ddau ddiwedd y pumdegau a dechrau'r chwedegau pan y gwnaeth Saunders Lewis fwy na neb i danseilio ffydd aelodau Plaid Cymru yn arweinyddiaeth Gwynfor Evans. Yn 1961 cafwyd datganiad chwerw gan Saunders Lewis: 'Fe'm gwrthodwyd i gan bawb . . . Mae pob un o'm syniadau . . . wedi'i bwrw heibio.' Does dim prinder tystiolaeth o'r bwrw heibio: cefnwyd ar bolisi Saunders Lewis o Gymru uniaith Gymraeg; anghofiwyd am berchentyaeth; pwysleisiwyd pwysigrwydd San Steffan; rhoddwyd y gorau i'r parch tuag at y teulu brenhinol; ymlafniwyd i gynnal cyflogaeth ym maes glo'r de, bro yr oedd Saunders Lewis am weld yn cael ei ddatddiwydiannu; dadleuwyd o blaid rôl allweddol i'r wladwriaeth mewn lles, addysg a chynhaliaeth deuluol.

Felly, yn y degawdau wedi'r rhyfel, rhoddwyd heibio cryn dipyn o fagej ideolegol Plaid Cymru. I fenthyg cysyniad o fyd crefydd, fe ddarfu i'r blaid newid o fod yn sect i fod yn enwad. Y mae diosg nodweddion sect yn broses sydd gan amlaf yn arwain at dwf sylweddol mewn aelodaeth a derbynioldeb; mae hefyd yn cydfynd â lleihad mewn purdeb athrawiaethol â chyda chryn gefnu ar ideoleg y tadau.

Efallai mai'r elfen bwysicaf y cefnwyd arni oedd y syniad fod Plaid Cymru yn rhywbeth amgenach na phlaid gwleidyddol a weithiai'n bennaf yn y maes etholiadol. I Saunders Lewis, nid peiriant i hel pleidleisiau oedd y blaid; yn hytrach, hi oedd y mudiad cenedlaethol. Ym mlynyddoedd cynnar llywyddiaeth Gwynfor Evans, glynwyd at y syniad hwnnw, ond, o'r chwedegau ymlaen, yr oedd parodrwydd cynyddol i gefnu arno ac i gyfyngu rôl Plaid Cymru i'r maes etholiadol. Y digwyddiad allweddol yn y trawsnewid hwn oedd achos Tryweryn,

prif faes gweithgarwch Plaid Cymru o 1956 hyd 1962. Yr oedd cryn ddisgwyl y byddai Tryweryn yn esgor ar Benyberth arall a, phan na ddigwyddodd hynny, bu beirniadaeth helaeth ar lwfrdra honedig arweinyddiaeth Plaid Cymru. Yr oedd y ffaith na weithredwyd yn Nhryweryn fel y gweithredwyd ym Mhenyberth yn ganolog i amheuaeth Saunders Lewis o Gwynfor Evans. Mewn llythyr ato yn 1961, ysgrifennodd Saunders Lewis: 'Pwyllgor Gwaith Plaid Cymru a fradychodd Achos Tryweryn. Ni allaf anghofio hynny.' Bron na ellir honni bod nifer o aelodau Plaid Cymru, ddiwedd y pumdegau, yn dioddef o'r hyn y gellid ei alw yn 'Penyberthitis', sef y gred simplistig mai dim ond trwy gael fersiwn newydd o weithred Penyberth bob ryw ugain mlynedd yr oedd modd cynnal momentwm cenedlaetholdeb Cymreig. Ar ryw olwg yr oedd yn afiechyd yr oedd yr aelodau yn mwynhau yn fawr. Golygai nad oedd rhaid iddynt wneud dim byd; byddai eu harweinwyr yn torri'r cyfraith, ildio i'r heddlu, traddodi areithiau cofiadwy yn y llys a mynd i'r carchar ac felly rhoi i'w dilynwyr wefr wladgarol hyfryd. Ni weithredodd Plaid Cymru yn Nhryweryn oherwydd agwedd Pwyllgor Rhanbarth y blaid ym Meirionydd, y mwyaf enilladwy o seddau seneddol Cymru. Y ddogfen allweddol yn yr ymryson yw'r llythyr a anfonwyd gan Bwyllgor Rhanbarth Meirionnydd i Bwyllgor Gwaith canolog Plaid Cymru yn 1961: 'Dylid fod yn ddealledig ar gof a chadw na fu ffafrio gweithredu yn anghyfreithlon o gwbl yn y Blaid ym Meirion. I'r gwrthwyneb yn hollol; ein barn ystyriol ni a fu y byddai gweithredoedd o'r fath yn rhwystr ac yn dramgwydd i blaid wleidyddol ar ei phrifiant . . . Fe fyddai gweithredu mewn modd na allai achub Tryweryn yn lladd ffydd a chefnogaeth y genedl i'r Blaid, hyd yn oed os byddai gweithredu yn tawelu cydwybod rywrai.' Y geiriau allweddol yma yw 'plaid wleidyddol ar ei phrifiant'. Erbyn y chwedegau, dyna yr oedd Plaid Cymru yn benderfynnol o fod.

Bron mor allweddol ag ymateb Pwyllgor Rhanbarth Merionnydd oedd agwedd rhai o'r galluocaf o aelodau newydd ifainc y blaid. Gyda'r amlycaf ohonynt oedd Phil Williams a ddisgrifiodd ei ymweliad cyntaf â Chynhadledd Plaid Cymru yn 1961: 'Roedd dadlau hyd at oriau mân y bore [ynglŷn â Thryweryn], a thro ar ôl tro cyfeiriwyd at Penyberth . . . Ond, eto i gyd, er i lawer o unigolion gael eu hysbrydoli gan Benyberth i wneud eu gorau dros Gymru, ni sicrhaodd unrhyw doriad gwawr gan nad oedd y peirianwaith yn bod drwy Gymru.'

Er i Gwynfor Evans ymddangos yn gefnogol ar brydiau i'r syniad o weithredu yn Nhryweryn, nid hynny oedd ei flaenoriaeth. Ei flaenoriaeth oedd sicrhau 'bod na beirianwaith yn bod drwy Gymru'. Gellir dirnad symudiad

sylfaenol ym meddylfryd arweinwyr y blaid ddiwedd y pumdegau a dechrau'r chwedegau. Y symudiad hwnnw oedd y penderfyniad i arwain plaid wleidyddol yn hytrach na grŵp protest. Ateb Gwynfor Evans i'w feirniaid – a dylid nodi fod rhai ohonynt yn sarrug iawn – oedd sicrhau'r datblygiad mwyaf a welwyd erioed yn hanes ei blaid, sef enwebu ugain ymgeisydd ar gyfer etholiad cyffredinol 1959, o gymharu â phedwar yn 1951 ac un ar ddeg yn 1955. Roedd sicrhau'r adnoddau, dynol ac ariannol, i ymladd 55 y cant o etholaethau Cymru yn gamp aruthrol, yn arbennig o gofio mai 7 y cant o etholaethau'r Alban a ymladdwyd gan yr SNP yn 1959 – a dylid cofnodi yma gyfraniad aruthrol Elwyn Roberts, a gysegrodd gyfran helaeth o'i fywyd i geisio datrys problemau cyllidol Plaid Cymru. Bu'r canlyniadau cyffredinol yn bur gadarnhaol gyda phleidlais ar gyfartaledd o bron pedair mil yr etholaeth a thwf trawiadol mewn aml i fan – o 28 y cant yn Wrecsam, er enghraifft, a 12 y cant yn Llanelli.

Ond siomedig oedd y canlyniad ym Meirionnydd, lle roedd Gwynfor Evans yn bedwerydd gyda llai nag 1 y cant o dwf yn ei ganran o'r bleidlais. Ergyd dost oedd y canlyniad, oherwydd, ag yntau wedi ymladd yn ddiflino dros achos Tryweryn, yr oedd llawer yn credu y byddai'n ennill y sedd. Cofia Dafydd Wigley, a oedd yn ddwy ar bymtheg ar y pryd, y 'collwyd sawl deigryn a thorrwyd ambell galon o ganlyniad i'r bleidlais ym Meirionnydd'. Yr etholiad yno, nododd Gwynfor Evans, oedd 'y mwyaf chwerw siomedig o bob un; arweiniodd at helbulon y blaid yn y blynyddoedd a ddilynai . . . cyfnod o bwyllgorau a chynadleddau stormus'.

Ymgyrch etholiadol 1959 oedd yng nghefn meddwl Saunders Lewis wrth iddo ymosod yn ei ddarlith radio enwog yn 1962 ar y gost 'o ymladd etholiadau di-amcan'. Er iddo fyw tan 1985, y ddarlith honno oedd bron yr olaf o ddatganiadau cyhoeddus y gŵr rhyfeddol hwnnw. Bwriad y ddadl oedd chwyldroi Plaid Cymru. Y nôd oedd rhoi pen ar ei datblygiad fel plaid etholiadol wleidyddol a'i throi yn fudiad iaith milwriaethus. Ymgais seithug ydoedd, yn enwedig yn wyneb y ffaith fod y blaid, o dan arweiniad ysbrydoledig Emrys Roberts, yn ennill tir ymhlith y di-Gymraeg, yn arbennig yn y de-ddwyrain. Cafodd y ddarlith effaith gwbl groes i fwriad y darlithydd. Gan iddi esgor ar Gymdeithas yr Iaith Gymraeg, bu'n foddion i ganiatáu i'r blaid i roi lle llai canolog i'r Gymraeg ac i ymwrol i fod yn fudiad a fedrai ymladd etholiadau seneddol yn fwy effeithiol.

Profwyd cywirdeb yr ymlyniad at y llwybr gwleidyddol etholiadol gan fuddugoliaeth ysgytwol Gwynfor Evans yn isetholiad Caerfyrddin yn 1966. Bu'r hyder a ddaeth yn ei sgil yn elfen allweddol ym mywiogrwydd gweithgareddau

Cymreig ail hanner y chwedegau. Darfu'r llwyddiant etholiadol gyfiawnhau ymlyniad egwyddorol Gwynfor Evans at y llwybr cyfansoddiadol a bu'n fodd i dawelu'r feirniadaeth ar strategaeth Plaid Cymru. Roedd hi'n bosibl dadlau fod Caerfyrddin yn etholaeth echreiddig a Gwynfor Evans yn ymgeisydd unigryw. Ond wrth i Blaid Cymru, yng Ngorllewin y Rhondda yn 1967 ac yng Nghaerfili yn 1968, ennill canran uwch o'r bleidlais nag yr enillasai yng Nghaerfyrddin, roedd hi'n anodd cynnal y ddadl honno.

Amwys oedd canlyniadau etholiad cyffredinol 1970 fel dyfarniad ar ymchwydd cenedlaethol y chwedegau. Darganfu Plaid Cymru yr adnoddau i ymladd pob sedd yng Nghymru; cafwyd cyfanswm o 175,016 o bleidleisiau ac enillwyd yr ail safle mewn wyth o etholaethau. Ddechrau'r chwedegau, fe fyddai canlyniad o'r fath wedi bod yn destun gorfoledd, ond oherwydd colli Caerfyrddin a methu torri trwodd yn unman arall, roedd cryn siomedigaeth.

Y Ceidwadwyr a enillodd etholiad 1970. A'r Blaid Lafur bellach yn wrthblaid, tybiwyd mai hi a fyddai'n derbyn pleidlais brotest yr etholwyr Cymreig, cred a wrthbrofwyd i raddau gan allu Emrys Roberts i ennill 37 y cant o'r bleidlais yn isetholiad Merthyr yn 1972. Erbyn 1972, roedd Plaid Cymru mewn sefyllfa i gynnig polisïau llawer iawn mwy manwl na'r rhai a oedd ganddi adeg isetholiadau'r chwedegau. Teimlai'r elfen ifanc blaengar a ddenwyd i'r blaid na ellid, ys dywed Dafydd Wigley, 'ddisgwyl i bobl Cymru arwyddo siec agored ar sail emosiwn'. Rhaid oedd medru cynnig, dadleuodd, 'rhywbeth amgenach na rhigol cenedlaetholdeb gorddiwylliannol'. Rhoddwyd gychwyn ar grŵp ymchwil Plaid Cymru, corff a ddaeth yn fuan i sylweddoli bod 'lle i amau llawer gosodiad yng nghyhoeddiadau'r Blaid. Ni lwyddwyd i ddarganfod yr economegydd Ffrengig anhysbys a honnai mai Cymru oedd y wlad gyfoethocaf yn y byd o ran adnoddau [ond darganfuwyd honiad] i Gymru allforio mwy o ddŵr mewn blwyddyn na chyfanswm y glaw a ddisgynnai ar ein gwlad.' Prif ffrwyth y grwp ymchwil oedd y Cynllun Economaidd a gyhoeddwyd yn 1970. Hydreiddiwyd y cynllun â hyder yng ngallu organau canolog y llywodraeth i sicrhau newid dramatig yn yr economi a'r gymdeithas Gymreig. Fe'i luniwyd ychydig o flynyddoedd ar ôl *National Plan* y llywodraeth Lafur ac roedd yn brawf o'r modd yr oedd rhythmau mewnol Plaid Cymru yn cydsymud gyda rhythmau mewnol y Blaid Lafur.

Gwelwyd ffrwyth yr ymdrechion hyn yng nghanlyniadau dwy etholiad 1974. Erbyn hydref 1974, yr oedd gan Blaid Cymru dri aelod seneddol, a chan nad oedd odid ddim mwyafrif gan y llywodraeth Lafur, roedd yr aelodau hynny mewn safle

pur ddylanwadol. 'Nid oeddwn wedi llawn sylweddoli', nododd Dafydd Wigley, 'mor unigryw ac allweddol oedd ein sefyllfa [rhwng 1974 a 1979].' Daeth i sylweddoli hynny yn andros o gyflym wedi etholiad 1979, pan enillodd y Ceidwadwyr fwyafrif sylweddol. '[Ar ôl 1979]', meddai, 'doedd fawr o bwys gan neb yn y Senedd bellach a oeddem yn bresennol ai peidio.' Nid felly'r sefyllfa cyn 1979 pan roedd y llywodraeth Lafur, ys dywed Dafydd Wigley, 'mewn panig wrth geisio . . . ymdopi â phresenoldeb cenedlaetholwyr mewn senedd grog'.

Penllanw'r broses oedd Mesur Cymru 1978 a refferendwm 1979. Af fi ddim i fanlu ynglŷn â refferendwm 1979, ond rhaid pwysleisio'r anobaith a deimlai aelodau'r blaid yng ngwanwyn 1979. Dadleuodd Gwyn Alfred Williams bod canlyniadau'r refferendwm yn golygu bod pobl Cymru 'wedi ysgrifennu *finis* ar bron i ddau gan mlynedd o hanes Cymru'. Aeth rhai ymhellach fyth, gan ddadlau mai nid trobwynt eithr diweddglo'r hanes hwnnw oedd pleidlais 1979.

Yr angen cyntaf, yn ddiau, oedd ailadfer hyder. Hynny, yn y bôn, oedd amcan Gwynfor Evans wrth ddatgan ym mis Mai 1980 y byddai'n ymprydio hyd at farw pe na byddai'r llywodraeth yn cadw'i gair ynglŷn â sefydlu sianel deledu Gymraeg. Nid ennill y sianel oedd ei prif fwriad. 'Adnewyddu ysbryd y cenedlaetholwyr oedd y nôd', meddai yn ei hunagofiant, '[gan] fod hyd yn oed goreuon pobl Cymru mewn parlys o ddiymadferthwch.' Enillwyd y sianel, ond ymateb cyntaf Gwynfor Evans oedd 'siom fod y Llywodraeth wedio ildio . . . yn rhy gynnar. Pe gwelem bum wythnos arall o'r cynnwrf a'r deffroad . . . gwelid y Blaid . . . wedi ymsefydlu mewn safle di-syfl.'

Ond wrth ganolbwyntio ar y Gymraeg, yr oedd perygl y medrai Plaid Cymru golli'r tir yr oedd hi wedi ennill yn y bröydd di-Gymraeg. Dyma fater a oedd o bryder mawr i Phil Williams. 'Dichon', dadleuodd 'y bydd angen arafu datblygiad y Blaid mewn rhai ardaloedd er gochel rhag i'r bwlch rhwng y gwahanol rannau o Gymru fynd yn rhy fawr i'w bontio.' Y pryder hwnnw i ryw raddau a barodd i Blaid Cymru newid ei chyfansoddiad a datgan fod sefydlu gwladwriaeth sosialaidd ddatganoledig yn un o'i hamcanion. Digwyddodd hynny yng nghydhadledd 1981 yng Nghaerfyrddin, yr achlysur pan ymddiswyddodd Gwynfor Evans o'r llywyddiaeth a phan gydiodd Dafydd Wigley yn yr awennau.

Yn ei gyfnod cyntaf fel llywydd – 1981 hyd 1984 – ceisiodd Dafydd Wigley ddehongli sosialaeth Plaid Cymru mewn ffordd a oedd yn gyson â thwf syniadaeth y blaid o gyfnod D. J. Davies, Gilwern. Enillodd hygrededd hefyd o'r ffaith ei fod, ar hyd y blynyddoedd, wedi cefnogi'r Farchnad Gyffredin Ewropeaidd

a'r datblygiadau a ddeiliodd ohoni – a hynny, ar un adeg, yn groes i bolisi ei blaid ei hun. Yr oedd yr hygrededd hynny'n hynod pwysig mewn cyfnod pan yr oedd hi'n dod yn fwyfwy amlwg y byddai unrhyw ddatblygiad cyfansoddiadol a ddeuai i ran Gymru yn un a fyddai'n rhwym o fod oddi mewn i'r Undeb Ewropeaidd. Dylanwad Dafydd Wigley, yn anad neb, sy'n esbonio pam y mae'r cysylltiad â Ewrop wedi dod yn rhan ganolog ac annadleuol o bolisi Plaid Cymru. Mae p'un ag ydyw hunan-lywodraeth o fewn i'r Undeb Ewropeaidd yn gyfystyr ag annibyniaeth yn bwnc na wnaf ei godi heddiw.

Yn ystod cyfnod cyntaf Dafydd Wigley fel llywydd, ymlafnodd ei gyd-aelod seneddol, Dafydd Elis Thomas, i roi gogwydd bendant farcsaidd i'w ddehongliad ef o sosialaeth ddatganoledig. Crewyd y Chwith Genedlaethol yn 1980, ac roedd gan y grŵp hwnnw, rhai ohonynt o'r chwith galed, fwyafrif ar y pwyllgor gwaith erbyn 1982. Gwelwyd datblygiadau tebyg oddi mewn i'r Blaid Lafur, esiampl arall o'r modd y mae rhythmau mewnol Plaid Cymru yn cyd-symud gyda rhythmau mewnol y Blaid Lafur. Gwnaed yn fawr o'r honiad na fu gweithgareddau Plaid Cymru yn y gorffennol namyn ymarferiadau hunanmaldodus gan fân fwrgeisiaid Cymraeg eu hiaith. Cofiaf aml i ymrafael felly, a chroniclir un ohonynt yn wych yn y gyfrol glodwiw hwnnw, *Y Dyn Dwad*: '"You self-righteous bloody culture-vulture bastard!" medda Mick … "You self-seeking free-state Plaid Cymru craphouse!" medda Ben . . . "Come on then, you reactionary Adfer fascist bum!" medda Mick… Gwaeddodd Connolly: "Reit, boys! Stop it! … This is a solidarity rally."'

Ar lefel llawer iawn mwy difrifol, ceisiodd Dafydd Elis Thomas, llywydd Plaid Cymru o 1984 hyd 1991, gymell astudiaeth ymroddedig o broblemau Cymru a chreu pontydd rhwng cenedlaetholwyr Cymreig a llu o fudiadau, yn eu plith yr undebau llafur, y ffeministiaid, y gymuned hoyw, yr ymgyrchwyr niwclear, y diwinyddwyr rhyddhad, yr ecolegwyr, y gwrth-hilwyr a'r rheini a ddadleuai o blaid dilysrwydd diwylliant genhedlig Saesneg yng Nghymru. Achubodd y wasg ar bob cyfle i bortreadu rhwyg rhwng y dde – y traddodiad Gwynforaidd, Wigleaidd – ar y naill law, a'r Chwith Genedlaethol ar y llaw arall. Eto i gyd, yr oedd llawer iawn o ddadleuon y chwith, yn arbennig ar bynciau fel militariaeth ac imperialaeth, yn adleisio daliadau y bu Gwynfor Evans yn eu coleddu ers y tridegau; ymhellach, polisi Plaid Cymru ar ddemocratiaeth ddiwydiannol, gwaith Dafydd Wigley yn bennaf, oedd 'y ddogfen fwyaf asgell chwith i'r blaid ei chynhyrchu erioed'. Gwnaethpwyd yn fawr o'r rhwyg a ddarganfu'r wasg rhwng y *rural right* a'r *industrial left*; serch hynny, fel y nododd Ned Thomas, yr hyn a alwai'r wasg yn

rural right oedd 'yr ychydig etholaethau lle mae mwy o bobl dosbarth-gweithiol yn pleidleisio i'r blaid nag yn y cwbl o weddill Cymru'.

Yn y nawdegau, daeth y Blaid Lafur Brydeinig i'r casgliad fod y llif etholiadol yn awgrymu mai nid wrth fynd fwyfwy i'r chwith yr enillid grym yn Mhrydain. Yr oedd Dafydd Elis Thomas wedi dod i gasgliad nid anhebyg rywfaint yn gynt. Mewn erthygl yn *Radical Wales* yn 1985, soniodd am y 'gambl' yn 1981, am anallu'r cyhoedd i ddeall strategaeth a oedd yn 'rhy haniaethol', ac am y dryswch a godai pe na bai gan Blaid Cymru ddelwedd gwahanol i'r Blaid Lafur. Erbyn diwedd y ddegawd, yr oedd ef yn ystyried mai'r ffordd ymlaen oedd ceisio sicrhau rheolaeth ddemocrataidd Gymreig dros y llu mawr o sefydliadau – *quangos* yn bennaf – a oedd wedi datblygu yng Nghymru. Sicrhau ystod eang o sefydliadau cenedlaethol, fe ddadleuwyd, oedd y ffordd orau i feithrin yng Nghymru genedligrwydd sific – ar draul, o bosib, cenedligrwydd ethnig – a thrwy hynny sicrhau bod gan bawb a drigai yng Nghymru eu rhan yn mywyd y genedl.

Dyma safbwynt â oedd yn cydweddi gyda dadleuon rhai o sylwebyddion craffaf Cymru, yn eu plith John Osmond, gŵr a wnaeth mwy nag odid neb i gynnal y drafodaeth ynglŷn â'r modd y llywodraethir Cymru. Yr oedd twf sefydliadau – datblygiad y Swyddfa Gymreig yn bennaf oll – dadleuodd John Osmond, yn 'mynd ymhell iawn i warantu ymwybyddiaeth sefydliadol o'r hunaniaeth Gymreig'. Dechreuwyd sôn am y *democratic deficit*, y diffyg democrataidd, y sefyllfa lle roedd gan Gymru awtonomi gweinyddol, ond nid y Cymry a oedd a reolaeth dros yr awtonomi hwnnw. Dyma ddadl a gafodd faeth o gyfnod Mrs Thatcher fel prif weinidog, cyfnod pan benodwyd cyfres o ysgrifenyddion gwladol i Gymru heb unrhyw fath o fandad Cymreig. Daeth y ddadl i'w hanterth yn ystod ysgrifenyddiaeth John Redwood, gŵr a gydnabyddodd nad ydoedd, yn ystod ei flynyddoedd yn y swydd, wedi treulio hyd yn oed un noson yng Nghymru. Rhaid cyfaddef ei fod wedi gwneud y sylw pan roedd y llywodraeth Geidwadol yn dioddef o lu o scandalau rhywiol, a mynegodd ei syndod bod pobl yn ymosod arno oherwydd ei awydd i fynd gartref a chysgu gyda'i wraig. Boed a fo am hynny, ond yn ddi-os, yr oedd y profiad o ddeunaw mlynedd o lywodraeth Geidwadol yn ffactor gwbl allweddol wrth egluro pam yr oedd canlyniad refferendwm 1997 yn wahanol i ganlyniad refferendwm 1979. Y mae lle i ddadlau y dylid codi dau gofgolofn o flaen adeilad y Cynulliad Cenedlaethol – un i Mrs. Thatcher ac un i John Redwood, i gydnabod eu cyfraniad fel penseiri datganoli.

Bu ail gyfnod Dafydd Wigley fel llywydd Plaid Cymru – o 1991 hyd 2000 –

yn gyfnod hynod lewyrchus yn hanes y blaid, a dichon nad ydym, hyd yma, wedi llawn sylweddoli dyled Plaid Cymru, ac yn wir dyled Cymry gyfan, i'r gŵr o Gaernarfon. Enillwyd buddugoliaethau lu ar gynghorau lleol, pwnc sy'n teilyngu darlith gyfan iddo hun. Cynyddodd nifer yr aelodau seneddol i bedwar, ac uwchlaw dim sicrhawyd cyd-ddealltwriaeth hynod ffrwythlon rhwng Plaid Cymru, y Blaid Lafur a'r Democratiaid Rhyddfrydol, y cyd-ddealltwriaeth a oedd yn ganolog i'r fuddgoliaeth – drwy drwch blewyn rhaid cyfaddef – yn refferendwm 1997. Ac yn goron ar y cwbl, cafwyd canlyniadau etholiadau'r Cynulliad, gyda Phlaid Cymru yn ennill bron i draean y seddi ac yn torri trwodd o'r diwedd yng nghymoedd diwydiannol y de.

Af fi ddim i drafod blwyddyn gynta'r Cynulliad; ar hyn o bryd, mae'n maes i'r newyddiadwr yn hytrach nag i'r hanesydd. Gan hynny, well i mi derfynu; a mi derfynaf wrth ddyfynnu geiriau a ysgrifennais ar ddiwedd fy llyfr, *Hanes Cymru*, a gyhoeddwyd yn 1990. Yr oeddwn wedyn crybwyll cwestiwn Gwyn Alfred Williams: 'Pa bryd y bu Cymru?' ac euthum ymlaen i ddatgan fy mod wedi ysgrifennu fy llyfr i 'yn y ffydd a'r hyder na fu hi eto yn ei llawnder'. Y mae gweld fy mhrofwydoliaeth yn cael ei gwireddu yn brofiad gweddfreiddiol. Ac i Blaid Cymru yn bennaf oll y mae'r diolch am y gwireddiad hwnnw.